**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd y mae'r Cynulliad yn ei wneud ar Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru, a chanlyniad ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad yn Ebrill 2004 |

1. **CEFNDIR**

1.1 Y llynedd, bu Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar ddrafft cyntaf y Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru, ac yn gwahodd sylwadau arno erbyn Mai 3ydd 2004. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 17 o gwestiynau am feysydd penodol yn y drafft.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 22ain Ebrill 2004, bu'r Panel Gweithredol yn trafod ac yn cytuno ar ei ymateb i'r drafft, a chyflwynwyd hwnnw fel y gofynnwyd (gweler Atodiad1).

1.3 Bwriad y Cynulliad ar y pryd oedd, yn ystod haf 2004, ddarparu fersiwn terfynol o'r Fframwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05, a chyhoeddi fersiynau diwygiedig bob hydref wedi hynny.

2. **CYFLWYNIAD**

2.1 Mae'r Fframwaith drafft yn dal wrthi'n cael ei ddiwygio, ond cawn ar ddeall ei fod yn bron yn barod. Trafodwyd fersiwn 'bron yn derfynol' yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Ragfyr 8fed 2004 (gweler atodiad 2). Gwahoddodd y Gweinidog sylwadau gan aelodau'r pwyllgor, a hysbysodd mai'r trefniant oedd i'r Ffrawaith fynd gerbron y sesiwn lawn yn y Flwyddyn Newydd.

2.2 Mewn rhai rhannau, mae'r fersiwn 'bron yn derfynol' hwn yn wahanol iawn i'r fersiwn gwreiddiol. Cyflwynwyd rhai newidiadau i ddod â'r ddogfen yn fwy cyfoes neu i ychwanegu rhagor o fanylion. Mae rhai newidiadau eraill – er nad ydynt wedi cael eu cadarnhau eto – yn mynd ymhell oddi wrth y gwreiddiol.

3. **Y NEWIDIADAU SYDD YN Y DRAFFT 'BRON YN DERFYNOL'**

3.1 Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sut y mae'r sylwadau a wnaed gan y Panel Gweithredol fis Ebrill y llynedd yn cael eu hadlewyrchu yn y drafft 'bron yn derfynol'.

3. **<u>Y NEWIDIADAU SYDD YN Y DRAFFT 'BRON YN DERFYNOL'</u>** *(parhad)*

3.2 <u>Cwestiynau 1-3 – Aelodaeth Pwyllgor Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (WF&RSSC).</u>
Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynigion i wneud hwn yn bwyllgor ymgynghorol bychan ar y lefel uchel, ond yn pwysleisio pwysigrwydd cael Prif Swyddogion Tân a Chadeiryddion y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn aelodau ohono.

Ni dderbyniwyd hyn – mae'r fersiwn ddiweddaraf yn rhestru'r aelodau a fydd yn cael eu penodi gan y Gweinidog fel "*cynrychiolydd o'r Awdurdodau Tân ac Achub; un o Brif Swyddogion Tân y Gwasanaeth Tân ac Achub; cynrychiolydd o blith gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub; cynrychiolydd o awdurdodau lleol; cynrychiolydd o gynghorau cymuned a thref a chynrychiolydd o fyd busnes a diwydiant*".

3.3 <u>Cwestiynau 4 - 5 – Aeodaaeth y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol (CFSC)</u>
Roedd yr aelodau'n dymuno cynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr ar y pwyllgor hwn, ac yn awgrymu cyfethol rhai aelodau pan fyddai materion penodol yn codi. Derbyniwyd y cynigion hyn, a chawsant eu cynnwys yn y paragraff perthnasol.

3.4 <u>Cwestiwn 6 – Targedau a chanlyniadau gwell</u>
Roedd ymateb yr Aelodau yn ymwneud â'u pryderon am y goblygiadau i'r adnoddau wrth weithio i ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau ar y ffyrdd; yr angen i ymdrin â materion iechyd a chymdeithasol; a'u gwrthwynebiad cryf i ddynodi rhai marwolaethau oherwydd tân yn rhai 'y gellid eu hosgoi' heb yn gyntaf gael diffiniad ymarferol o ddosbarthiad o'r fath.

Mae'r drafft diweddaraf yn cyfeirio at Gynlluniau Diogelwch ar y Ffyrdd a Deddf Rheoli Traffig 2004, ac at y posibilrwydd o ymdrin â rhai o'r materion iechyd a chymdeithasol trwy Gyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys.
Nid yw'r cyfeiriad at 'farwolaethau ac anafiadau difrifol oherwydd tân y gellid eu hosgoi' wedi cael ei newid.

3.5 <u>Cwestiwn 7 – Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol</u>

Roedd y cwestiwn ar yr adran hon o'r ddogfen ddrafft gyntaf yn gofyn am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy Gynlluniau Risg a gweithio mewn partneriaeth.

Fel ymateb, amlinellodd yr Aelodau hanes hir y Gwasanaeth o gymryd rhan mewn partneriaethau cydweithrediadol, a'r drafferth a gânt wrth ddychymgu beth allai brysuro'r gwaith yma heblaw am gynyddu dylanwad y Gwasanaeth neu ddod o hyd i ffordd i gael gostyngiad dramatig mewn rhai o'r ffactorau achlysurol megis camddefnyddio sylweddau.

Mae'r drafft sydd bron yn derfynol yn cyflwyno paragraffau newydd ar gyfranogiad y gwasanaeth yn y nifer cynyddol o Bartneriaethau Strategol Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n cael eu sefydlu, ac yn cyfeirio at gyfleoedd eraill ar gyfer mynd i'r afael â materion cymunedol.

Fodd bynnag, mae'r rhan yma o'r fframwaith, sy'n ymdrin â chynllunio integredig rheoli risg, diogelwch tân cymunedol, ymddygiad diogelwch tân, a gostwng nifer y tanau bwriadol, wedi cael ei newid a'i ehangu'n helaeth. Mae paragraffau wedi cael eu ychwanegu sy'n mynnu bod ymgynghori'n eang ar Gynlluniau Risg drafft yn bwysig, bod gwerthuso pob ymateb yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw, a chrynhoi ymateb yr Awdurdod iddynt.

3. **<u>Y NEWIDADAU SYDD YN Y DRAFFT 'BRON YN DERFYNOL'</u>** *(parhad)*

3.5 <u>Cwestiwn 7 – Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol</u> *(parhad)*
Mae yna ychwanegiad yma na ragwelwyd, sef y gofyniad y dylai Awdurdodau "*ymgynghori â'r Cynulliad ymlaen llaw cyn gwneud eu Cynllun Risg am y flwyddyn yn derfynol*" a "*chael cymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad i unrhyw gynnig sy'n codi o Gynllun Risg yr awdurdod i gau neu israddio gorsaf dân*".

3.6 <u>Cwestiwn 8 – Rheoliadau Adeiladu, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio ac Adeiladau'r Goron</u>
Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a oedd digon yn cael ei wneud yng Nghymru i reoli risg trwy'r fframwaith ddeddfwriaethol.

Roedd ymateb GTAGC yn ailddatgan cefnogaeth gref yr Aelodau i'r egwyddor o osod systemau taenellu mewn adeiladau domestig, yn enwedig y rhai sydd â risg uchel. Mae'r drafft sydd bron yn derfynol o'r adran ar Reoliadau Adeiladau wedi cael ei hail-ysgrifennu'n llwyr, sy'n adlewyrchu'r ffaith nad yw'r rheoliadau hyn wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad, ac yn disgrifio'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Prydain a'r ODPM.

3.7 <u>Cwestiwn 9 – Cydweithredu a chael arbedion maint</u>
Roedd yr Aelodau o'r farn fod y Cynulliad yn wir yn gwneud digon i sicrhau cydweithredu rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, ond yn disgwyl cyfleoedd eraill i godi yn y dyfodol.

Mae'r drafft sydd bron yn derfynol yn tynnu sylw at y ffaith mai mater i'r Cynulliad bellach yw'r casgliad gan Mott MacDonald mai un ystafell reoli ar gyfer Cymru fyddai orau. Dilewyd y cyfeiriadau at y ffaith fod un ystafell reoli ar gyfer Cymru yn bosib "*dim ond os yw'n parhau mewn partneriaeth gyda'r ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn Lloegr*".

Er "*nad yw'r achos dros uno ymhellach* [yr awdurdodau tân] *wedi ei wneud*" yn dilyn yr ad-drefnu yn 1996, mae'r drafft yn cefnogi disgwyliad yr Aelodau y bydd cyfleoedd eraill ar gyfer cydweithredu yn codi.

Mae'r paragraff ar fentrau rhannu adeiladau rhwng y gwahanol wasanaethau brys (yr heddlu, yr ambiwlans a'r gwasanaeth tân ac achub) yng Nghrymych, Llandeilo, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin, wedi cael ei gadw. Mae'r Cynulliad yn gweld y mentrau rhannu adeiladau hyn yn arwydd o'r gwasanaethau brys yn cydweithio '*er lles ein cymunedau*'.

3.8 <u>Cwestiwn 10 – Cynlluniau yr Ymatebydd Cyntaf neu Gyd-Ymateb</u>
Roedd yr Aelodau yn bwyllog wrth ymateb i'r un cwestiwn ar gynlluniau ymatebydd cyntaf neu gyd-ymateb, ac yn dweud yn glir eu bod yn dymuno asesu goblygiadau cynlluniau o'r fath yn iawn, a chael eu hargyhoeddi gan y gwasanaeth ambiwlans y byddai'r canlyniadau i'r cleifion yn gwella.

Fodd bynnag, mae'r drafft yn dweud *"lle gellir gwella'r canlyniadau trwy addasu gwasanaethau neu weithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill, dylid dilyn hyn*". Mae'n cyfeirio at gynlluniau megis y pum Cynllun Ymatebydd Cyntaf sydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, "*y dylid eu ehangu i gwmpasu pob ardal o Gymru*". Mae'r drafft sydd bron yn derfynol yn cyflwyno ymrwymiad gan y Cynulliad i "*gefnogi trafodaethau rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a'r gwasanaeth meddygol ac ambiwlans i ymchwilio i fanteision pellach a goblygiadau hyn, efallai ar sail ardal flaenoriaeth i ddechrau*".

3. **<u>Y NEWIDIADAU SYDD YN Y DRAFFT 'BRON YN DERFYNOL'</u>** *(parhad)*

3.8 <u>Cwestiwn 10 – Cynlluniau yr Ymatebydd Cyntaf neu Gyd-Ymateb</u> *(parhad)*

Er mai dyna'r unig gwestiwn ar Adran 4 – Ymateb Effeithiol, mae'r fersiwn newydd yn cyflwyno newid mawr ac annisgwyl i ran arall o'r adran honno, sef wrth sôn am dân fod raid i'r gwasanaeth (sic.) tân ac achub "*sicrhau bod y lefelau priodol o adnoddau yn cael eu hanfon allan, o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt, at ddigwyddiadau i gyrraedd Safonau Cyflwyno Gwasanaeth Llywodraeth y Cynulliad.* Bydd [y safonau hyn] *yn destun canllawiau manwl i'w cyhoeddi yn ystod 2005, a byddant yn cynnwys edrych ar lefel yr adnoddau a'r defnydd ohonyn*".

Nid ymgynhorwyd â'r Awdurdod na'r Gwasanaeth am y gofynaid newydd hwn, ac nid oedd sôn amdano yn y drafft cyntaf.

3.9 <u>Cwestiynau 12-13 – Ymateb i fygythiadau, argyfyngau sifil a chydnerthedd *(resilience)*</u>
Mae'r adrannau hyn wedi cael eu hailysgrifennu'n helaeth i ystyried y cynnydd a wnaed eisoes ac i ychwanegu rhagor o fanylion. Soniwyd yn yr adran sy'n ymdrin â *Firelink*, sef y system radio newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, am bryderon GTAGC ynghylch y gwahaniaethau rhwng yr offer a gweithdrefnau anfon allan yng Nghymru a'r rhai yn yr ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn Lloegr o ran cydnerthedd. Mae'r Cynulliad o'r farn (paragraff 5.28) y bydd digon o amser i gynllunio ar gyfer hyn gan y bydd y system newydd, wrth iddi gael ei rhoi ar waith fesul cam, yn cymryd sawl blwyddyn.

3.10 <u>Cwestiynau 14-15 – Rheoli adnoddau dynol a datblygu'r gweithlu</u>
Yn dilyn y ffaith i'r Aelodau atgoffa y bydd y system integredig datblygiad personol (IPDS) yn cael ei ddefnyddio gan y staff i gyd, gan gynnwys staff cefnogol di-lifrai, mae cyfeiriadau at y grŵp yma o weithwyr wedi cael eu hychwanegu.

3.11 <u>Cwestiwn 16 – Rheoli perfformiad</u>
Dim ond mân newidiadau a wnaed, i adlewyrchu'r feddylfryd bresennol. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn dal yn agored i newid yn unol â Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella y Gwasanaeth Tân sydd wrthi'n cael ei datblygu. Mae'r paragraffau ar e-lywodraeth hefyd yn cadarnhau y bydd y gwasanaethau tân ac achub yn cael eu cynnwys yn y gwaith Cymru Ar-lein.

3.12 <u>Cwestiwn 17 – Ymchwil</u>
Dim ond mân newidiadau a wnaed, i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

3.13 <u>Sylwadau Cyffredinol</u>
Yn rhannol y triniwyd siom yr aelodau at y ffaith fod cyn lleied o gyfeiriadau yn y ddogfen at faterion cydraddoldeb, ac yn benodol faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Atgyfnerthwyd pwysigrwydd cael gweithlu amrywiol yn adran 6, o ran proffil y gweithlu ei hun, a'r cyfleoedd a'r hyblygrwydd sydd ar gael iddynt. Dim ond un cyfeiriad sydd at y Gymraeg, ac mae'n cael ei wneud yng nghyd-destun datblygu staff dan Strategaeth Datblygu Gweithlu Genedlaethol Cymru.

3. **<u>Y NEWIDIADAU SYDD YN Y DRAFFT 'BRON YN DERFYNOL'</u>** *(parhad)*

Roedd yr aelodau hefyd wedi gwneud sylw cyffredinol fod y ddogfen ddrafft yn aneglur mewn rhai llefydd, ac yn cynnwys nifer o wallau. Mae rhai gwallau yn dal yn amlwg yn y fersiwn newydd, ond dim ond rhai mân yn bennaf. Gallai cyfeiriadau anghywir at yr 'Awdurdod' Tân ac Achub, y 'Gwasanaeth' Tân ac Achub' a'r gwasanaeth tân ac achub yn gyffredinol fod yn ddryswch.

4. **<u>EFFAITH Y NEWIDIADAU A'R YCHWANEGIADAU I'R FFRAMWAITH DRAFFT</u>**

4.1 Gwnaed rhai newidiadau i'r drafft, naill ai i ymateb i'r ymgynghoriad, i gywiro gwallau, neu i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed eisoes ers yr ymgynghoriad y llynedd.

4.2 Fodd bynnag, os byddant yn aros yn y fframwaith terfynol a gyhoeddir, bydd rhai o'r newidiadau sydd yn y drafft mwyaf diweddar hwn i'w gweld yn mynd yn bell iawn oddi wrth y drafft gwreiddiol. Nid ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Tân ynghylch rhai materion, ac mae cynnwys ychwanegiadau hwyr ac annisgwyl wedi creu dogfen sy'n cynnwys negeseuon sy'n gwrthdaro. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag ar un llaw, lefelau gwasanaeth sydd wedi eu pennu yn lleol yn seiliedig ar asesiad yr Awdurdod ei hun o'r risg lleol, ac ar y llaw arall, â darparu gwasanaethau yn unol â Safonau Cyflwyno Gwasanaeth y byddai'r Cynulliad yn eu gosod ar gyfer yr Awdurdod.

5 **<u>PWERAU YMYRRYD</u>**

Cynhwyswyd paragraffau newydd yn y fframwaith drafft sy'n rhybuddio y " *dylai awdurdod ystyried eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r fframwaith hwn*" a bod "*pwerau ymyrryd y Cynulliad dan y fframwaith hwn yn wahanol, ac yn ychwanegol, i bwerau'r Cynulliad os bydd Awdurdod yn peidio â chydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n ymwneud â gwerth gorau*".

Er na ddywedir hyn, mae'n siwr mai cyfeiriad at Adran 21(7) ac Adrannau 22 i 24 Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ydynt (gweler atodiad 3).

Fodd bynnag, mae adran 21(5) o'r Ddeddf hefyd yn gwneud gofyniad i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol, <u>neu unrhyw newidiadau mawr iddo</u>.

Efallai y bydd yr aelodau'n dymuno ystyried a oes rhai o'r newidadau uchod yn newidiadau 'mawr' a ddylai fod yn destun ymgynghoriad arall gyda hwy.

5 **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

5.1 Bod yr Aelodau'n nodi bodolaeth y drafft 'bron yn derfynol', ystyried y materion a godir yn y fersiwn mwyaf diweddar, a phenderfynu pa ymateb, os o gwbl, y maent yn dymuno ei roi.

(cyfieithiadau answyddogol yw'r dyfyniadau)